# Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddementia

## Cofnodion: Cyfarfod mis Rhagfyr 2016

Ystafell Bwyllgora 21, Tŷ Hywel
12.30 – 13.25 dydd Mawrth 13 Rhagfyr 2016
Cadeirydd: Lynne Neagle AC
Pwnc trafod: Cynllun Gweithredu Strategol ar Ddementia Llywodraeth Cymru

### Yn bresennol

Lynne Neagle AC (Cadeirydd); Hannah Blythyn AC; Mark Isherwood AC; Julie Price (ar ran Nathan Gill AC); Craig Lawton (ar ran Suzy Davies AC).

Ed Bridges, Morgan Griffith-David, Jaz Williams (Cymdeithas Alzheimer's); Paul Harding (Marie Curie); Rosie Raison, Nicola Davis-Job (Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru); Iwan Williams (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru); Allison Hughes (BASW Cymru); Nesta Lloyd-Jones (Cydffederasiwn GIG Cymru); Nigel Hullah, Rachel Niblock, Partneriaeth Datblygu Cydraddoldeb Cyflogadwyedd (DEEP).

Elizabeth Williams, Robert Williams, Kim Watkins, Gavin Watkins, Linda Willis, Adele Morgan, Scott Morgan, Denise Saunders, Tina Barker, Ceri Higgins (pobl yr effeithir arnynt gan ddementia / gofalwyr / gwirfoddolwyr).

**Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau**

- Croesawodd Lynne Neagle AC bawb i'r cyfarfod.
- Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**Strategaeth Ddementia Llywodraeth Cymru** :

- Roedd disgwyl i'r Strategaeth gael ei lansio ar 14 Rhagfyr ond mae bellach wedi ei gohirio tan ddechrau mis Ionawr
- Rhoddodd Morgan Griffith-David (Swyddog Polisi Cymdeithas Alzheimer's Cymru) adroddiad ar strwythur Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru sy'n cynghori ar y Strategaeth Ddementia, a'r broses o'i datblygu hyd yn hyn. Bu ffocws penodol ar gwrs bywyd dementia (o gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd, i ddiagnosis a chymorth, drwy fyw yn dda gyda dementia ac ymlaen i gefnogi dementia yn y camau hwyr a gofal diwedd oes); ochr yn ochr â hyn cafwyd trafodaeth ar themâu trawsbynciol fel yr iaith Gymraeg, dementia mewn cymunedau amrywiol a chymorth i bobl mewn ardaloedd gwledig. Mae hefyd yn werth pwysleisio bod y strategaeth ddementia yn gorgyffwrdd â dogfennau polisi eraill (e.e. y strategaeth gofalwyr) a bydd angen rhoi sylw i sicrhau bod y gwahanol ddogfennau yn ategu ei gilydd.
  Yn ogystal, siaradodd Morgan hefyd am y llythyr ar y cyd a gyflwynwyd i'r Ysgrifennydd Iechyd gan ystod o sefydliadau sydd â diddordeb (cyrff y trydydd sector neu gyrff proffesiynol yn bennaf) yn nodi rhai o'r nodweddion yr awgrymir eu bod yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth. Mae'r rhain yn ychwanegol at (ond mewn llawer o achosion yn gorgyffwrdd) y pwyntiau a godwyd yn y digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus.
- Rhoddodd Ed Bridges (Rheolwr Materion Allanol Cymdeithas Alzheimer's Cymru) a Rachel Niblock (Cydlynydd y Rhwydwaith DEEP yng Nghymru) adroddiad ar farn pobl yr effeithir arnynt gan ddementia fel y mynegwyd yn y digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd ledled

Cymru yn ystod y misoedd diwethaf, ac a fydd yn parhau yn y Flwyddyn Newydd. Mae adroddiad yn seiliedig ar y pwyntiau a godwyd yn cael ei baratoi ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn y Flwyddyn Newydd, ond bydd yn cwmpasu, *inter alia*, yr angen am y canlynol:

  - Mwy o hyfforddiant / gwell hyfforddiant i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
  - Mwy o hyblygrwydd o ran gofal seibiant
  - Mwy o gymorth / gwell cymorth ar ôl cael diagnosis
  - Cydnabyddiaeth o'r arbedion y gellir eu gwneud drwy atal ymyriadau ar bwynt argyfwng
  - Cydnabod manteision cefnogaeth gan gymheiriaid a systemau cyfeillio
  - Gwell parhad gofal (gweithiwr cymorth a enwir ac ati)
  - Cyllid ar gyfer dementia sy'n adlewyrchu'r ffaith ei fod yn brif achos marwolaeth

- Clywsom hefyd gan Jaz Williams (Swyddog Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaethau gyda Chymdeithas Alzheimer's Cymru) am y prosiect Community Voice: Co-creating Healthy Change yng Nghaerdydd a'r Fro. Er nad yw'n gysylltiedig â'r Strategaeth Ddementia, mae'r prosiect wedi rhoi cyfle i bobl yr effeithir arnynt gan ddementia ddylanwadu ar benderfyniadau polisi am wasanaethau iechyd a lles trwy adrodd am eu profiadau o gael mynediad at Glinigau Cof, diagnosis a chymorth gan ysbytai a lleoliadau gofal. Mae llawer o'r themâu a godwyd yn cyd-fynd â'r rhestr uchod, ac mae'r gwaith hefyd wedi nodi anghysondebau sylweddol rhwng profiadau gwahanol bobl yn seiliedig ar ble maent yn byw neu faint o gymorth a gawsant wrth gael diagnosis.

**Cyfraniadau o'r llawr**

Yn ystod trafodaeth faith ar y Strategaeth Ddementia a'r hyn yr hoffai'r rhai a effeithir gan ddementia ei weld yn cael ei adlewyrchu ynddi, codwyd y pwyntiau canlynol:

- Mae angen adnoddau priodol ar gyfer y Strategaeth fel y gall ragori ar y lefelau presennol o gymorth.
- Mae angen i'r Strategaeth nodi lleisiau pobl yr effeithir arnynt gan ddementia – bu'r digwyddiadau ymgynghori yn gyfleoedd cadarnhaol ac fe'u croesawyd, ond mae angen i'r ddogfen derfynol ymateb i'r pwyntiau a godwyd ynddynt. Mae'n rhaid cynnwys mwy o bobl yr effeithir arnynt gan ddementia ym mhob cam o ddatblygiad a gwerthusiad y Strategaeth - a'u cynnwys mewn ffordd fwy ystyrlon .
- Mae mynediad at ddiagnosis trwy gyfrwng y Gymraeg yn faes lle dylai'r Strategaeth geisio rhoi cyfeiriad penodol ac ysgogi gwelliannau.
- Roedd pryder bod grwpiau cymorth yn dod yn gynyddol ddibynnol ar wirfoddolwyr i'w rhedeg yn hytrach na staff proffesiynol, wedi'u hyfforddi. Croesewir cyfraniad gwirfoddolwyr, ond ni ddylid ei ystyried fel 'ateb rhad'.

**Camau gweithredu ar gyfer y cyfarfod nesaf / dyddiad y cyfarfod nesaf**

Awgrymwyd y gellid cynnal y cyfarfod nesaf ar 14 neu 15 Chwefror 2017. Fodd bynnag, teimlwyd y byddai'n ddefnyddiol gwahodd yr Ysgrifennydd Iechyd i arwain trafodaeth ar y strategaeth ddementia ac, fel y cyfryw, bydd rhaid i ni fod yn hyblyg i gyd-fynd â'i ddyddiadur. Felly, bydd gwybodaeth am fanylion y cyfarfod nesaf yn cael ei dosbarthu ar ôl nodi dyddiad.

*Cam i'w gymryd*: Lynne Neagle AC i ysgrifennu at Vaughan Gething AC, yr Ysgrifennydd Iechyd, i'w wahodd i awgrymu dyddiad pryd y gall fod yn bresennol i siarad am y strategaeth ddementia.